09.03.23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cymeriad newydd cyffrous yn Rownd a Rownd

Mae cymeriad newydd cyffrous wedi cyrraedd Glanrafon, pentref dychmygol yr opera sebon **Rownd a Rownd**. Mae Tammy yn ferch ifanc sydd wedi dechrau gweithio yn yr Iard Gychod ond, hyd yn hyn, mae hi wedi cadw pawb ar hyd braich.

Mae 'na lot fawr i ddod i wybod am Tammy yn ystod y misoedd nesaf, a bydd sawl cymeriad yn ei chorddi a'i diddanu.

Yr actor Lois Elenid sy'n chwarae rhan Tammy. Mae hi wedi ymddangos yn yr ail gyfres o **Craith**, a ffilmiau byrion ond dyma'r tro cyntaf iddi actio mewn cyfres sebon.

Yma, mae'r actor sy'n byw ym mhentref Rhydyclafdy ger Pwllheli yn cael ei holi am ei chymeriad a'r profiad o fod yn rhan o gast **Rownd a Rownd**.

**Sut gymeriad ydy Tammy?**

Dydy hi ddim yn gymeriad neis iawn. Yn amlwg, mae wastad rhesymau pam mae pobl yn ymddwyn fel maen nhw - mae magwraeth yn lot o'r peth. Dydy hi ddim yn gadael i bobl fod yn agos ati yn emosiynol, a does ganddi ddim lot o ffrindiau. Mae hi'n dipyn o *lone wolf* ac mae hi'n manipiwleiddio pobl hefyd. Mae wastad rheswm pam ei bod hi'n gwneud rhywbeth.

Dw i'm yn hollol siŵr sut mae ei chymeriad yn mynd i ddatblygu ond dw i'n meddwl ei bod hi'n dechrau dod â'r wal yna i lawr. Gobeithio fydd hi'n gallu agor fyny ychydig bach a bod yn fwy onest.

**Ydy o'n hwyl chwarae cymeriad fel hyn?**

Ydy, mae'n ddifyr iawn. Dw i'n cael lot o hwyl achos dw i byth yn gwybod beth mae hi'n mynd i ddeud nesa'! Mae hi'n hollol wahanol i fi ac mae hynny'n rhoi'r cyfle i fi arbrofi. Mae hi'n gymeriad reit *hands-on* ac yn gweithio yn yr Iard Gychod. Ei thad sydd wedi ei dysgu hi i fod yn ymarferol. Mae ei gwisg hi yn reit wahanol i be fyswn i'n gwisgo hefyd - lot o combat bŵts a throwsusau gwaith.

**Dach chi wedi bod yn ffan o Rownd a Rownd?**

Gafon ni'n magu yn gwylio S4C ac rydan ni wedi bod yn gwylio **Rownd a Rownd** bob wythnos fel teulu ers o'n i'n blentyn. O'n i wastad yn siarad am be oedd wedi digwydd efo'n ffrinidau yn yr ysgol wedyn.

**Sut brofiad oedd ymuno â'r cast?**

Mae pawb wedi bod mor glên sydd wedi bod yn help mawr i gael gwared ag unrhyw nerfau. O'n i'n nabod rhai aelodau o'r cast cyn cychwyn, felly oedd hynny'n help bod yna ryw gysylltiad efo nhw a gallu cynnal sgwrs yn y dyddiau cynnar. Dw i wedi cael croeso cynnes gan bawb rili ac mae'r criw i gyd yn grêt. Mae'n neis gwybod fedrwch chi droi at rywun os oes gynnoch chi gwestiynau am y cymeriad os dach chi ddim yn siŵr. Dw i'n gallu trafod efo nhw ac mae'n helpu fi i allu mynd mewn i'r rôl yn fwy.

**Rownd a Rownd**
**Pob Nos Fawrth a Nos Iau 8.25, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media ar gyfer S4C**

02.03.23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# An exciting new character arrives in Rownd a Rownd

An exciting new character has arrived in Glanrafon, the fictional village of the soap opera Rownd a Rownd. Tammy is a young woman who has started working at the Boatyard but, so far, she has kept everyone at arm's length.

Over the next few months, we will find out a lot more about Tammy – in the meantime, some characters will rub her up the wrong way while others will keep her entertained.

Actor Lois Elenid plays Tammy. She has appeared in the second series of **Craith**, and several short films but this is her first time acting in a soap opera.

Here, the actor who lives in the village of Rhydyclafdy near Pwllheli answers questions about her character and the experience of being part of the cast of **Rownd a Rownd**.

**How would you describe Tammy?**

She is not a very nice character. Obviously, there are always reasons why people behave the way they do - upbringing is a lot of it. She doesn't let people get close to her emotionally, and she doesn't have a lot of friends. She is a bit of a lone wolf, and she manipulates people too. There is always a reason why she does something.

I'm not sure how her character is going to develop but I think she's starting to bring her guard down. Hopefully she will be able to open up a little bit and be more honest.

**Is it fun to play a character like this?**

Yes, it is very interesting. I have a lot of fun because I never know what she's going to say next. She is completely different to me and that gives me the opportunity to experiment with the role. She is quite a hands-on character and works in the Boatyard. Her father has taught her to be very practical. Her clothes are quite different to what I would wear as well - lots of combat boots and work trousers.

**Have you always been a fan of Rownd a Rownd?**

We grew up watching S4C and we have been watching **Rownd a Rownd** every week as a family since I was a child. I would then go to school and chat about what had happened with my friends.

**How did it feel to join the cast?**

Everyone has been so kind which has really helped to get rid of any nerves. I knew some members of the cast before starting, so that helped to have some connection with them and be able to have conversations in the early days. I've had a warm welcome from everyone and the crew are all great. It's nice to know you can turn to someone if you have questions about the character if you're not sure. I can discuss it with them, and it helps me to be able to get into the role a bit better.

**Rownd a Rownd**
**Every Tuesday and Thursday 8.25, S4C**
**English and Welsh subtitles**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**A Rondo Media production for S4C**